CYLCH GORCHWYL GRŴP CYSWLLT CYMUNEDOL FFERM WYNT TIRGWYNT

1. Rôl y Grŵp Cyswllt

1.1 Bydd y Grŵp yn cael ei adnabod fel Grŵp Cyswllt Cymunedol Tirgwynt (y cyfeirir ato fel y GCC o hyn ymlaen).

1.2 Bydd cynrychiolydd/wyr perchennog y prosiect yn trefnu ac yn mynychu pob cyfarfod. Gwahoddir y grwpiau canlynol i fod yn aelodau o'r GCC:

- Pwyllgor Canolfan Gymunedol Aberhafesb
- Cyngor Cymuned Caersws
- Cyngor Cymuned Carno
- Cyngor Cymuned Carreghofa
- Cyngor Cymuned Castell Caereinion
- Cyngor Cymuned Dwyriw
- Cyngor Cymuned Cegidfa
- Cyngor Cymuned Llandrinio ac Ardd-lîn
- Cyngor Cymuned Llandysilio
- Cyngor Cymuned Llanfair Caereinion
- Cyngor Plwyf Pant a Llanymynech
- Menter Maldwyn
- Cyngor Tref y Trallwng
- Heddlu Dyfed Powys
- Cydlynydd tirfeddiannwr y fferm wynt

1.3 Nid yw aelodaeth y GCC yn ddibynnol ar gefnogi neu wrthwynebu'r fferm wynt.

1.4 Nod y GCC yw darparu fforwm ar gyfer cyfnewid gwybodaeth yn ymwneud ag adeiladu fferm wynt Tirgwynt.

1.5 Bydd y GCC yn parhau'n weithredol drwy gydol cyfnod adeiladu'r prosiect.

1.6 Bydd y GCC yn gweithredu fel llwybr i greu a chynnal sianeli cyfathrebu rhwng cynrychiolwyr perchennog y prosiect, y gymuned leol a'u cynrychiolwyr etholedig.

1.7 Diffinnir y gymuned leol fel y rhai sy'n byw neu'n gweithio yng nghyffiniau safle fferm wynt Tirgwynt.

1.8 Bydd trafodaethau'r GCC wedi'u cyfyngu i faterion yn ymwneud ag adeiladu fferm wynt Tirgwynt yn unig.

2. Aelodaeth y Grŵp

2.1 Gellir enwi cynrychiolwyr ychwanegol o grwpiau cymunedol gan aelodau presennol neu gallant gynnig eu hunain i gael eu hystyried ar gyfer aelodaeth.

2.2 Petai unrhyw aelod o'r GCC yn camu i lawr, gellir enwebu aelod newydd i'w cytuno gan yr aelodaeth bresennol.

2.3 Gall y cyhoedd gyflwyno cwestiynau cyn cyfarfod y GCC a bydd yn cael sylw yn y cyfarfod nesaf, neu mewn cyfarfod addas wedi hynny (er enghraifft, pan fo angen ymateb technegol fanwl).

3. Cadeirydd

3.1 Bydd y GCC yn enwi Cadeirydd ac is-gadeirydd o blith ei aelodau yn y cyfarfod cyntaf.

3.2 Bydd y Cadeirydd a'r is-gadeirydd yn gyfrifol am gynnal y cyfarfodydd yn drefnus, glynu at yr agenda a sicrhau Cylch Gorchwyl y GCC.

4. Ymrwymiadau Perchnogion y Prosiect

Mae perchennog y prosiect yn ymrwymo i ysgwyddo'r cyfrifoldebau canlynol mewn perthynas â'r GCC:

4.1 Gwneud y gwaith gweinyddol sy'n angenrheidiol i drefnu'r cyfarfodydd

4.2 Talu am gostau llogi'r lleoliad a'r hysbysebu

4.3 Llunio agendâu a chofnodion yn ymwneud â chyfarfodydd y GCC

4.4 Cyhoeddi'r cofnodion, wedi'u cadarnhau, ar wefan y prosiect

4.5 Ymateb yn brydlon i gwestiynau sy'n codi yn ystod cyfarfodydd y GCC

4.6 Darparu siaradwyr perthnasol, sy'n benodol i'r prosiect i ateb cwestiynau yn ymwneud ag adeiladu Tirgwynt.

5. **Ymrwymiadau aelod o'r GCC**

Mae aelodau'r GCC yn ymrwymo i wneud y canlynol:

5.1 Gwneud sylwadau ar ran y cymunedau y maent yn eu cynrychioli

5.2 Lledaenu ymatebion a chanlyniadau cyfarfodydd yn ôl i'w cymunedau

5.3 Gweithio gyda pherchennog y prosiect i nodi pynciau allweddol sydd o ddiddordeb i'r gymuned leol a allai fod yn 'thema' i gyfarfodydd y GCC neu weithdai ychwanegol

6. Trefniadau'r cyfarfodydd

6.1 Cytunir ymysg yr aelodau pa mor aml y cynhelir y cyfarfodydd mewn ymateb i gyfnod y cynnig am y fferm wynt a lefel y gweithgarwch.

6.2 Bydd cyfarfod cyntaf y GCC yn cwrdd yng Nghyngor Cymuned Carno am 7pm ddydd Mercher 26 Awst. Trafodir a chytunir ar leoliad cyfarfodydd y dyfodol.